



UMPA

Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

28 Ionawr 2016

Ystafell Bwyllgor

Presennol:

Lewis Donnelly (LD)	- Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr
Hanna Medi Merrigan (HMM)	- Materion Cymreig a Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr
Ieuan Gregory (IG)	- Swyddog Lles Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr
Kelly Keat (KK)	- Swyddog Gweithgareddau Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr
Lauren Marks (LM)	- Swyddog Addysg UMPA ac Ymddiriedolwr
Sue Parnell (SP)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Alastair Wager (AW)	- Ymddiriedolwr Ôl-raddedigion UMPA
Sam Bache (SB)	- Ymddiriedolwr Israddedig UMPA

Skype:

Peter Curran (PC)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA
-------------------	------------------------------

Yn gwasanaethu:

Daryl Ormerod (DO)	- Prif Weithredwr dros-dro UMPA
Dan Francis (DF)	- Dirprwy Brif Weithredwr dros-dro UMPA
Anmarie Evans (AE)	- Cynorthwydd Gweithredol i Fwrdd UMPA (yn cymryd cofnodion)

GWEINYDDIAETH Y CYFARFOD

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Estelle Hart – Ymddiriedolwr Allanol UMPA

2. Datganiadau o Fuddiannau

Gwnaeth Tîm y Swyddogion ddatganiad o fuddiannau cyffredinol yn y materion sydd i'w trafod. Hysbysodd AW y Bwrdd ei fod yn aelod o Staff Myfyrwyr UMPA.

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

Cymeradwywyd

4. Materion yn Codi

Nododd DO, er bod y 3 blynedd o gyfrifon wedi cael eu cytuno yn y cyfarfod diwethaf, bu oedi o ran y ffigurau terfynol gyda'r Banc. Mae'n obeithiol y byddwn yn gallu cwblhau'r ffigurau ar gyfer yr elusen o fewn yr ychydig wythnosau nesaf.

Nodwyd

STRATEGAETH

5. Cyllid: Cyfrifon Rheolaeth

Nododd CH bod y Cyfrifon Rheolaeth ar gyfer Rhagfyr 2015 yn dangos diffyg ariannol o £89k yn erbyn y targed yn y gyllideb. Esboniodd, er bod y rhan fwyaf o'r diffyg yn deillio o'n mentrau masnachol, mae'r gyllideb yn or-optimistig. Er bod gwerthiant wedi cynyddu o gymharu â llynedd, mae'r gyllideb yn parhau i fod yn afrealistig.

Nodwyd

Y Fantolen Ariannol

Esboniodd DO, er bod arian parod gennym, y mater allweddol yw'r ddyled fawr sydd arnom i'n credydwyr, yn arbennig y Brifysgol am ein bil cyflogau ar gyfer 2014. Esboniodd ymhellach bod trafodaethau ar y gweill â Chyfarwyddwr Cyllid y Brifysgol i edrych ar sut gellid datrys hyn.

Nodwyd

Gofynnodd PC am gynnal amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol, gan gynnwys unrhyw gostau sy'n perthyn i'r Rhaglen Newid.

Gweithredu - DO

Ychwanegodd PC ei bod yn hanfodol i'r Brifysgol weld cynllun cadarn a cynaliadwy i fynd i'r afael â'r ddyled, ac mae angen sicrwydd i ddangos bod cynlluniau mewn lle i atal hyn rhag digwydd eto.

Nodwyd

6. Adroddiad y Prif Weithredwr (cyfrinachol)

Cyflwynodd DO grynodeb o'r adroddiad a gyflwynodd o'r blaen. Roedd yn ymwneud â Gwerthuso Staff, Hyfforddiant Arweinyddiaeth, Proses Recriwtio ar gyfer swydd y Prif Weithredwr, ymchwil i ffurfio sail i'r Cynllun Strategol newydd a sefyllfa gyllidol y mudiad.

Yn ystod y drafodaeth ynglŷn â recriwtio'r Prif Weithredwr, holodd PC pa gefnogaeth fyddai'n cael ei darparu i'r ymgeisydd llwyddiannus o ran trosglwyddo'r awenau? Esboniodd DO y bydd hyn yn dibynnu ar ddyddiad dechrau'r Prif Weithredwr newydd; byddai'n ddigon bodlon bod yn gefnogol, a byddai'n trafod hyn pan fo angen gyda'i Ymddiriedolwyr.

Nodwyd

Hefyd hysbysodd DO y Bwrdd ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd ers y cyfarfod diwethaf, gan ychwanegu at ei adroddiad: mae LM wedi gwneud gwaith gwych o ran cwblhau'r Cyflwyniad Ysgrifenedig ar gyfer yr ASA gyda deilliannau credadwy iawn.

Nodwyd

7. Rhaglen Newid (cyfrinachol)

Cyflwynodd DO ei argymhellion ar gyfer newid, er mwyn mynd i'r afael â materion cyllid, diwylliant a strwythurau staffio'r mudiad. Esboniodd DO, er bod yr argymhellion hyn yn cael eu cynnig, mae'r materion hyn yn brosiect hir-dymor y bydd rhaid i'r Prif Weithredwr newydd barhau i fynd i'r afael â nhw.

Cynnig 1.

Cymeradwywyd

Cynnig 2.

Cymeradwywyd, cyn belled â'i fod yn cynnwys y dewis o becyn cymorth ariannol i helpu swyddogion newydd-eu-hethol â chostau llety a.y.b.

Gweithredu - DO

Yn ystod trafodaethau, teimlwyd bod angen datblygu ymhellach y broses o drosglwyddo'r awenau / sefydlu swyddogion newydd. Bydd DF yn cael gafael ar raglen sefydlu, gan gydweithwyr yn UCM / UMa, er ystyriaeth cyn sefydlu swyddogion 2016-17.

Gweithredu - DF

Cynnig 3.

Tra bod pawb yn cytuno mewn egwyddor â'r cynnig hwn, roedd pryderon allweddol i'w datrys wrth symud ymlaen. Cytunodd y Bwrdd y dylai DO ddarparu cynnig terfynol ar gyfer cyfarfod yr Ymddiriedolwyr ym mis Mawrth, gan roi ystyriaeth i'r gwahanol bryderon a drafodwyd.

Gweithredu - DO

Cynnig 4.

Cafwyd trafodaeth yngŷn sut byddai'r strwythur arfaethedig ar gyfer y mudiad yn gweithio.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd bleidleisio ar y canlynol: A oeddynt am i'r strwythur arfaethedig symud ymlaen? gyda chynnig terfynol i'w ddarparu erbyn cyfarfod Mawrth.

Cytunwyd

Cynnig 5. Mabwysiadu system flynyddol o reoli gwylliau hyblyg

Esboniodd DO y byddai'r cynnig hwn yn mynd i'r afael ag anghysondebau o ran oriau gwaith ac amser hyblyg, ac yn caniatáu i Reolwyr wneud gwell defnydd o'u hadnoddau staff.

Cytunwyd

Cynnig 6. Mabwysiadu graddfa gyflogau newydd i hyrwyddo tryloywedd a'i gwneud yn bosib rhagweld beth sy'n fforddiadwy

Cafwyd trafodaeth fanwl, ac roedd yr Ymddiriedolwyr yn cytuno mewn egwyddor. Mae angen canfod mwy o gyngor o ran Adnoddau Dynol, a darparu cynnig terfynol yng nghyfarfod mis Mawrth.

Cytunwyd

Gweithredu - DO

Cynnig 7. Adolygu gwariant sydd ddim yn perthyn i gyflogau er mwyn lleihau costau

Cytunodd y Bwrdd y bydd DO yn ymgymryd ag ymchwiliad llawn a thrylwyr o'r costau sydd ddim yn perthyn i gyflogau, er mwyn sicrhau ein bod ni'n cyllidebu'n briodol.

Cytunwyd

Gweithredu - DO

LLYWODRAETHIANT

8. Cynnydd yn y nifer o Ymddiriedolwyr Allanol

Hysbysodd LD y Bwrdd fod Corff y Myfyrwyr wedi cymeradwyo'r cynnydd yn y nifer o Ymddiriedolwr Allanol o 3 i 5. Yn dilyn trafodaeth fer, cytunwyd y byddai'n well ail-afael yn y mater hwn gynted y bydd y Prif Weithredwr newydd wedi dechrau yn y rôl.

Gweithred - Cyfredol

Aeth SP allan o'r ystafell ar gyfer y weithred ganlynol.

9. Penodi Dirprwy Gadeirydd

Cynigiodd LD y dylid pennu rôl y Dirprwy Gadeirydd i Ymddiriedolwr Allanol, at ddibenion cynorthwyo'r Cadeirydd etholedig o blith y myfyrwyr mewn rheoli materion sy'n perthyn i'r Bwrdd, yn enwedig gweithredu fel rheolwr llinell ac adolygu perfformiad y Prif Weithredwr. Ynghyd â hyn, nododd LD ei fod yn awgrymu bod SP yn cymryd rôl y Dirprwy Gadeirydd, ac esboniodd y rhesymeg am hyn. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau pellach.

Cytunwyd

10. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf:

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd lau 24 Mawrth 2016 am 10am, yn Ystafell y Pwyllgor